



# *Cyrraedd y Copa*

## Ysgol Bro Inghli

### Adroddiad Blynyddol i'r Rhieni 2016-17

*Pleser i ni yw cyflwyno adroddiad blynyddol yr ysgol i chi.*

Nifer ar y gofrestr - 113 (107 Llawn) Rhan amser - 12

Presenoldeb am 2015 - 2016 - 95.2%  
Absenoldebau heb ganiatad - 0.8%  
Targed 2016-17 - 95.5%  
Categori Iaith yr ysgol - Cyfrwng Cymraeg

#### STAFF

Mrs Enfys Howells - Pennaeth  
Mr Siôn Davies - Athro Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 5 a 6)  
Mrs Ffion Rodgers - Athrawes Cyfnod Allweddol 2 a phwynt rheolaeth (Blwyddyn 3 a 4)  
Mrs Lis Matthews - Athrawes Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 1 a 2)  
Miss Eleri Jones - Athrawes Derbyn a Meithrin  
Mrs Siân Davies - Athrawes rhan amser (CPA)  
Ms Ina Thomson - Athrawes Cerdd (CPA)  
Miss Sera Johnson - Cynorthwy-ydd Dysgu ADY (0.5) (Rhan amser)  
Mrs Jo James - Cynorthwy-ydd Dysgu a Clerc Arian Prydau Ysgol  
Mrs Susie James - Cynorthwy-ydd Dysgu  
Miss Sandra Williams - Cynorthwy-ydd Dysgu a Glanheuwraig  
Mrs Sally Thomas - Cynorthwy-ydd Dysgu ADY  
Miss Alison Rees - Cynorthwy-ydd Dysgu a Glanheuwraig  
Mrs Eleri Rees - Cynorthwy-ydd Dysgu (rhan amser)  
Mrs Olga Davies - Cynorthwy-ydd Dysgu (rhan amser)  
Miss Katie Morris - Cynorthwy-ydd Dysgu a Gofalwraig Clwb Brecwast (rhan amser)  
Mrs Liz Calleghari - Cynorthwy-ydd Dysgu (dros dro)  
Mrs Delyth Thomas - Swyddog Gweinyddu  
Mr Pete Hilsdon - Gofalwr  
Mrs Jackie Morris - Glanheuwraig  
Miss Angharad Davies - Gofalwraig Clwb Brecwast (rhan amser)  
Mrs Annette Davies - Cogyddes  
Mrs Chrisley Harries - Gweinyddes Cegin a Gofalwraig Clwb Brecwast

## Newyddion Staff:

Croesawyd Mr Siôn Davies atom fel athro blwyddyn 5 a 6 ar ddechrau mis Medi. Croesawyd Mrs Siân Davies atom ar ddechrau mis Ionawr yn dilyn hysbysebu am swydd CPA. Mae Mrs Davies yn dysgu Gwyddoniaeth yn nosbarthiadau CA2 a Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd yn y CS.

Gan fod rhifau disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn codi erbyn tymor yr haf, mae'n rhaid cyflogi cynorthwyr dosbarth ychwanegol i'r dosbarth Derbyn a Meithrin. Mae dwy yn rhannu'r swydd sef Miss Eleri Rees a Mrs Olga Davies. Cyflogwyd Miss Katie Morris i weithio pob bore yn nosbarth blwyddyn 1 a 2 oherwydd rhifau uchel yn y dosbarth o fis Ionawr ymlaen.

Yn nhyr ym 2019 bu Miss Jo a Miss Susie yn ymgymryd â chwrs Gloywi Iaith Gymraeg yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin dau ddiwrnod yr wythnos. Bu Miss Sally yn gweithio oriau ychwanegol yn lle Miss Jo a chyflogwyd Miss Liz Calleghari yn lle Miss Susie. Bu Miss Eleri Jones hefyd ar gwrs gloywi am gyfnod o dair wythnos a bu Miss Olive Harries a Mrs Siân Davies yn rhannu dysgu y dosbarth Meithrin a Derbyn.

## Y LLYWODRAETHWYR

### **ENW**

Mrs Glenda Thomas  
Ms Helen Manley-Jones  
Mrs Enfys Howells  
Miss Eleri Jones  
Mrs Delyth Thomas  
Cyngh. Paul Harries  
Mr Barry Onions  
Ms Gian Cafolla-Ward  
Mrs Lynne Upsdell  
Mr Pete Smith  
Mr Pete Hilsdon  
Mrs Sarah Pugh  
Miss Lynsey Ponsonby-Lewes  
Mrs Emma Rees

### **STATWS**

Cadeirydd/Cynrychiolydd Cymunedol  
Is -Gadeirydd / Cynrychiolydd Cymunedol  
Pennaeth  
Cynrychiolydd Staff  
Cynrychiolydd Staff Ategol  
Cynrychiolydd Awdurdod Addysg Lleol  
Cynrychiolydd Awdurdod Addysg Lleol  
Cynrychiolydd Cymunedol  
Cynrychiolydd Awdurdod Addysg Lleol  
Cynrychiolydd Cymunedol  
Cynrychiolydd Rhieni  
Cynrychiolydd Rhieni  
Cynrychiolydd Rhieni  
Cynrychiolydd Rhieni

## Y CWRICWLWM

Drwy gynllunio'n fanwl sicrheir ein bod yn ateb holl ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Er mwyn galluogi ein bod yn ateb anghenion disgyblion yr ysgol a gofynion y cwricwlwm, rydym yn dysgu'n thematig. Ar adegau, pan yn briodol, dysgir yn bynciaol hefyd. Rhoddir pwyslais arbennig ar ddysgu am y gymuned leol fel ein bod yn hyrwyddo balchder ymysg y plant. Mae hyn hefyd yn galluogi ein bod yn cyflawni'r Cwricwlwm Cymreig.

Rydym yn dal i ddefnyddio'r cynllun gwaith newydd Cornerstones sydd wedi sicrhau ymhellach ein bod yn gweithredu dysgu'n draws gwricwlaidd, gan sicrhau bod y plant yn ganolig i, ac yn cael mewn-bwn i gynllunio'r gwaith sydd i'w wneud. Mae cynnwys y disgyblion wrth gynllunio'r gwaith yn arbennig o lwyddiannus. Mae wedi sicrhau fod y plant yn cael eu symbylu a'u motifeiddio yn y broses o ddysgu ac o'r herwydd maent yn frwdfrydig am yr addysgu. Rydym yn dilyn y

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac yn cynllunio er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn ehangu ar y sgiliau ieithyddol a mathemategol maent wedi dysgu.

Rydym yn parhau i ddefnyddio'r cynllun iaith Aled Afal yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllun yma yn cael ei gyflwyno'n ddyddiol i'r disgyblion ac yn eu hysgogi i ysgrifennu am Aled a'i ffrindiau a thrwy hyn maent yn dysgu'r sgiliau ar gyfer ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae safonau ysgrifennu wedi codi yn ei sgil. Mae ysgolion lleol wedi bod i weld y gwaith ar lawr y dosbarth ac yn gweld ei fudd. Mae'r cynllun Geirio Gwych sydd yn strategaeth ar gyfer hybu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig yn parhau i gael ei ddefnyddio yn CA2 ynghyd â dull Pie Corbett. Mae'r dull yma yn fodd o adrodd stori ar lafar i'r disgyblion yn ddyddiol ac mae'r plant yn dysgu'r stori ar lafar a thrwy hyn yn medru ei hysgrifennu.

Buddsoddwyd mewn cynllun Mathemateg newydd llynedd o'r enw Rhifo Rhagorol (Big Maths). Trwy'r cynllun yma mae'r disgyblion yn mynd nôl i'r elfen sylfaenol o fathemateg gan sicrhau eu bod yn gwybod symiau mathemateg syml yn eu pen. Erbyn diwedd blwyddyn 6 dylai'r disgyblion fedru adalw 72 prif sym mathemategol o fewn 90 eiliad. Rydym yn gweld budd mawr i'r cynllun a gweld fod safonau mathemateg y disgyblion i gyd wedi codi.

Dyma amserlen o'r themau a astudiwyd yn ystod y flwyddyn.

	<b><u>Tymor yr Hydref</u></b>	<b><u>Tymor y Gwanwyn</u></b>	<b><u>Tymor yr Haf</u></b>
Cyfnod Sylfaen	* Pitran Patran * Yr Enfys Drydan	*Pan af i gysgu	* Pawennau, Crafangau a Wisgars *Gwingo ac Ymlusgo
Blwyddyn 3 a 4	* Esgyrn, Gwaed a Darnau Gwaedlyd * Oes Fictoria	*Gourmet Byd Eang *Y Goedwig Wylt	*Môr a Morwyr
Blwyddyn 5 a 6	* Blits *Peiriant Sgrech	* Hip y 60au *Rhandir	* Troi a llifo

## RHAGLEN FONITRO YSGOL

Mae amserlen dreigl yn cael ei chreu yn flynyddol a ffeil wedi ei pharatoi ar gyfer cadw tystiolaeth. Pwrpas y rhaglen fonitro yw i weld lle mae cryfderau'r ysgol a lle mae angen gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol. Rhoddir pwyslais mawr ar adborth y disgyblion a'r staff a bwydir y wybodaeth hon i fewn i'r Cynllun Datblygu Ysgol.

Dyma amserlen am 2016-17.

Maes / Pwnc	Tymor yr Hydref	Tymor y Gwanwyn	Tymor yr Haf
Mathemateg / Rhifedd	Dadansoddi canlyniadau Profion / Data Craidd Hunanarfarniad / Creu CDY Craffu ar lyfrau	Arsylwi gwers mathemateg—effaith y cynllun Big Maths Craffu ar lyfrau Adroddiad cynnydd ar Rhifo Rhagorol—barn y plant Cwblhau portffolio	Trafod defnydd o TGCh mewn gwersi mathemateg—Arolwg 360° Craffu ar lyfrau
Iaith—Cymraeg a Saesneg / Llythrennedd	Dadansoddi canlyniadau Profion / Data Craidd Hunanarfarniad / Creu CDY Arsylwi gwers iaith Craffu ar lyfrau	Sut mae ysgrifennu'n datblygu ar draws y Cwricwlwm? Craffu ar lyfrau Barn y disgyblion am ysgrifennu Cwblhau portffolio o waith yn y ddwy iaith	Trafod defnydd o TGCh mewn gwersi Iaith Gwrando ar blant yn darllen a thrafod barn y disgyblion am darllen
Gwyddoniaeth	Dadansoddi canlyniadau Profion / Data Craidd Hunanarfarniad / Creu CDY Craffu ar lyfrau	Craffu ar lyfrau—cofnodi gwyddonol Arsylwi gwers wyddonol Cwblhau portffolio	Barn y plant am wersi gwyddonol
Rheoli	Arsylwi gwers iaith Dadansoddi holiaduron rhieni Creu Hunanarfarniad a CDY Rheoli Perfformiad staff Rheoli Perfformiad Pennaeth Taith ddysgu Mathemateg	Arsylwi gwers mathemateg a gwyddoniaeth Barn y disgyblion Taith ddysgu Gwyddoniaeth Noson i esbonio dysgu Math i'r Llywodraethwyr	· Arsylwi gwers Thema · Dadansoddi canlyniadau PASS · Dadansoddi canlyniadau'r profion Cenedlaethol · Anfon Holiaduron i rieni · Taith ddysgu TGCh

## CYNLLUN DATBLYGU YSGOL

Mae hwn yn gynllun gweithredol sy'n dangos datblygiadau yn y meysydd allweddol ac mae'r ysgol yn ei ddefnyddio, ynghyd â Rheoli Perfformiad a Hunan Werthuso Ysgol, ar gyfer cynllunio. Y meysydd a ddatblygwyd eleni oedd:

<u>Targed</u>	<u>Meysydd sydd wedi datblygu</u>
<p><b><u>Llythrennedd:</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Codi lefelau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn sicrhau fod canrhannau uwch yn cael Lefelau 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a Deilliant 6 yn y Cyfnod Sylfaen</li> <li>• Sicrhau ethos mwy Cymreig yn yr ysgol – disgyblion i sgwrsio'n rhwydd gyda'i gilydd yn y Gymraeg. Ail-gydio yn Bant â'r Cart yn CA2, Dechrau Cyngor Cymreictod o fewn yr ysgol</li> <li>• Parhau gyda'r gwaith ar ddarllen a wnaed llynedd</li> </ul>	<p>Cyngor Cymreictod wedi'i sefydlu - 2 aelod o bob blwyddyn 1-6. Aelodau hŷn wedi bod mewn diwrnod a drefnwyd gan y Sir i drafod digwyddiad arbennig ar gyfer Diwrnod Shw Mae. Aelodau'r Cyngor yn trefnu digwyddiadau ar y dydd - gwahodd rhieni i fewn am fore coffi, Twmpath gydag Eurfyl a graffiti Cymraeg ar yr iard. Disgyblion yn cael eu gwobrwyo gyda 5 pwynt Dojo am siarad Cymraeg gyda ffrindiau. Ethos wedi gwella peth ond angen atgoffa plant yn reolaidd.</p> <p>CA2 wedi gwneud defnydd o'r sgrîn gwyrdd mewn gweithgareddau yn ystod y tymor. Gwaith ar ail rhyfel byd a Roald Dahl. Trefnwyd sesiwn gan y cwmni Life Channel i weithio gyda disgyblion blw 5 a 6. Darllen grwp yn cymryd lle. Disgyblion yn hoff iawn o'r 'reciprocal'. Eva John wedi bod allan yn hyfforddi SD ar y dull yma o ddarllen grwp. Cynlluniau ERW yn cael ei defnyddio'n effeithiol. Craffu ar lyfrau gyda'r staff yn dangos fod y cynlluniau yn cael effaith cadarnhaol.</p> <p>Dathliadau diri wedi cymryd lle am Roald Dahl. Cymryd rhan yn y diwrnod arbennig Cenedlaethol gyda pawb yn gwisgo fel eu hoff gymeriadau. Sioe 'Mewn Cymeriad' yn ymweld gan ddangos pwt o sawl llyfr. Sioe Nadolig yr Ysgol wedi selio ar ei waith - 5 llyfr. Cyngerdd Nadolig hefyd am ei waith. Disgyblion wedi elwa'n fawr a nifer fawr nawr yn darllen ei lyfrau 3 merch o flwyddyn 6 wedi mynychu'r Sgwad Sgwennu - wedi elwa'n fawr a'u hyder wedi codi mewn ysgrifennu. Derbyniodd y dair lyfr o waith pawb oedd ar y sgwad er mwyn gweld eu gwaith mewn print.</p> <p>4 aelod o staff CS wedi derbyn y cwrs ELKLAN ac wedi llwyddo. Gwaith a gyflawnwyd yn y cwrs yn werthfawr i'w ddefnyddio ar lawr y dosbarth. Cofnodion darllen newydd yn lwyddiant. Disgyblion yn hoff iawn o gael ffeil i gario popeth ynddynt - llyfrau darllen, cofnod a gwaith cartref. Llyfrau wedi cael ei hail-wampio. Gwaith cartref yn cael ei roi allan yn reolaidd o fl 1-6</p> <p>Disgyblion CA2 wedi mynychu'r Llyfrgell i fenthyg llyfrau. Nifer helaeth o blant wedi ymaelodi gyda'r llyfrgell fel canlyniad. Cydweithio agos rhwng yr Ysgol a'r Llyfrgell.</p> <p>Llyfrau wedi cael eu craffu arnynt mewn cyfarfod staff. Dilyniant clir i'w weld yn y llyfrau o Derbyn - fl 6 gan ddangos fod y disgyblion yn cael eu herio'n ddigonol.</p> <p>Disgyblion yn hoffi ysgrifennu ar y cyfan. Holiaduron yn bositif.</p> <p>Disgyblion wedi gwneud y prawf darllen Saesneg a'r canlyniadau wedi'u dadansoddi. Reading Eggs wedi cael ei archebu fel canlyniad er mwyn codi safonau darllen Saesneg</p> <p>Gweithgareddau Reciprocal reading yn cael eu gwneud ym ml3-6 a'r disgyblion yn sgwrsio'n hyderus am y llyfrau. Nid oes angen i'r staff arwain y grwpiau ym ml 5-6 gan eu bod yn medru mynd ymlaen â'r gwaith trafod yn annibynnol.</p>

	<p>Dyddiad wedi'i benodi ddechrau mis Mehefin i Tudur ac Anni ymweld. Ymgeisiwyd am grant 'Ras yr Iaith' er mwyn cynnal gweithgareddau i hybu'r Gymraeg a thafodiaith Sir Benfro ac enillwyd £400. Byddwn yn gweithio ar y prosiect ar ôl hanner tymor gan wahodd pobl lleol i fewn i siarad gyda'r plant am dafodiaith a bydd arlunydd yn dod i wneud murlun ar ddrysau eraill y neuadd. Bu Merched y Wawr Trefdraeth i fewn i gael cinio gyda disgyblion bl 5 a 6 i hybu siarad Cymraeg ac roedd yr effaith yn glir i'w weld gan fod mwy ohonynt yn sgwrsio gyda'i gilydd yn y Gymraeg yn dilyn yr ymweliad. Daeth MyW Dinas ym mis Mai. Disgyblion yn cael sesiynau ychwanegol gyda Miss Sera i'w helpu gyda gweithgareddau darllen a deall fydd yn Sylfaen da i'r profion cenedlaethol. Difyblion wedi magu mwy o hyder wrth fynd ati i wneud cwestiynau tebyg.</p> <p>Rhiannon yr arlunydd wedi dod i'r Ysgol ddechrau mis Ionawr i weithio gyda'r disgyblion ar furlun ardal ar ddrysau'r neuadd. Y disgyblion wrth eu bodd yn cydweithio gyda Rhiannon ac yn falch iawn o'r murlun. Ariannwyd y gwaith gan FfBI a Chlwb Cwl.</p> <p>Bant â'r Cart yn digwydd yn wythnosol yn CS, ddim mor aml yn CA2. Disgyblion bl 3 a 4 yn mynd i'r Llyfrgell yn y dref yn fisol.</p> <p>Trefnwyd noson agored o 'Ysgol Bro Inqli ar waith' yn ystod mis Mawrth lle roedd cyfle i rieni ymwlybro o gwmpas yr Ysgol i weld yr hyn sydd yn cymryd lle yn yr Ysgol y ddyddiol. Daeth tyrfa dda i'r noson a llenwyd holiaduron positif gan y rhai a ddaeth i weld.</p>
<p><b><u>Rhifedd</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau fod 92% o ddisgyblion yn cyrraedd L4+ a 77% D5+ a fod bl 2-6 yn sgorio mwy na 85 yn y Profion Rhifedd Cenedlaethol trwy ddefnydd o'r raglen Big Maths</li> </ul>	<p>Llyfrau mathemateg sgwariau yn cael eu defnyddio ar draws bl 1 -6 - disgyblion yn hoffi gweithio ynddynt. Hyn hefyd yn golygu llai o daflenni gwaith. Staff wedi craffu ar lyfrau mathemateg yr Ysgol gyfan ac wedi adnabod arfer dda ac agweddau sydd angen gwelliant</p> <p>System Rhifo Rhagorol yn asesu plant yn wythnosol ac yn cadw cofnod o'u datblygiad.</p> <p>Monitrwyd effaith RhRh Ionawr 2017 a gwelod fod disgyblion canolig yn gwneud cynnydd da oherwydd y cynllun. Mwy o effaith y cynllun i'w weld gan y plant sydd wedi dechrau yn ifancach. Sgiliau gwaith pen wedi gwella'n sylweddol. Tîm o 4 o fl 5 a 6 wedi cymryd rhan yn Sialens Rhifedd yn YBG a dangos sgiliau pen ardderchog.</p> <p>Wedi cael sgwrs gyda'r Llywodraethwr â gofal am Fath - Paul Harries i esbonio'r gwaith. Daeth hefyd i fewn i wylio gwersi Rhifo Rhagorol ar draws yr Ysgol. Roedd wedi cael ei blesio'n fawr</p> <p>Llyfrau newydd gyda gweithgareddau rhifedd wedi'u harchebu. Athrawon o Glannau Gwaun wedi bod yma yn clywed am y rhgalen Rhifo Rhagorol - rhannu arfer dda.</p> <p>Sesiwn cymedroli wedi cael ei gynnal ar ddiwrnod cyntaf nôl ar ôl y Pasg. Lefelau wedi cael eu cytuno.</p>
<p><b><u>Dealltwriaeth o'r Byd / Gwyddoniaeth</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Penodi athro athro ar gyfer CPA Gwyddoniaeth</li> <li>Creu Proffil ar gyfer gwaith</li> </ul>	<p>Cynhaliwyd cyfweiliadau ar gyfer swydd CPA ddiwedd tymor y Nadolig a phenodwyd Mrs Siân Davies. Dechreuodd ym mis Ionawr ac yn dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd yn y CS a Gwyddoniaeth yn CA2</p> <p>Cynlluniau ERW wedi cael ei mabwysiadu i Wyddoniaeth yn CA2 ac yn gweithio'n dda fel Sylfaen i waith Gwyddoniaeth. Athrawon wedi cynllunio amserlen i fapio'r cynlluniau ERW yn erbyn y themau.</p> <p>Gwaith mewn llyfrau ar wahan i Wyddoniaeth yn CA2</p>

<p>cymedroli ysgol a chlwstwr Cyngor Eco – gwobr arian /Prosiect Iechyd – Gwobr Ansawdd</p>	<p>Cyngor Eco wedi cael ei benodi - 2 gynrychiolydd o bob blwyddyn 1 -6. Wedi cyfarfod nifer o weithiau a prosiectau ar droed. Edrych i weithio gyda'r Sir ar system ail-gylchu sbwriel yr Ysgol. Biniau papur wedi'u harchebu i'r Ysgol a bin mawr papur ar gyfer i'r Sir eu gasglu pan mae'n llawn Hyn yn arbed arian i'r Ysgol. Disgyblion bl 5 a 6 wedi bod yn gweithio ar brosiect ynni gyda Tim Brew gan annog pawb i droi'r goleuni bant. Trefnwyd taith i 'Tidal Mill' Caeriw i ddysgu am ynni dwr. Richard Vaughan wedi gweithio gyda disgyblion bl 3 a 4 ar goedwig Ty Canol fel rhan o'u thema Goedwig Gwyllt. Disgyblion bl 5 a 6 wedi ail gydio yn y gwaith garddio. Y ty gwydr eco wedi cael ei symud i'r iard gefn gan Peter Mwyn gwneud mwy o ddefnydd ohono. Llysiau wedi cael eu plannu a bydd y disgyblion yn eu gwerthu i rieni cyn ddiwedd tymor. 2 ffwgan brain smart yn gwyllo dros y llysiau.</p> <p>Gwaith wedi cael ei ddewis ar gyfer cymedroli a'r Clwstwr wedi cytuno ar y lefelau a osodwyd gan yr Ysgol</p> <p>6 aelod o'r Cyngor Eco wedi mynychu cynhadledd sirol a dod nôl â llawer o syniadau i'r Ysgol am weithgareddau gellid eu gwneud i hybu gwaith eco. Llawer o dystiolaeth ar gael i asesu ar gyfer y Wobr Arian ar Orffennaf 5ed</p>
<p><b><u>TGCh</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau 360° Safe a mabwysiadu polisi E-Ddiogelwch newydd. Penodi panel o Bencampwyr Digidol i gynnwys disgyblion, staff a Llywodraethwyr</li> <li>• Dechrau ar y gwaith o baratoi ar gyfer Llythrennedd Digidol</li> <li>• Gwneud defnydd pellach o'r sgrin gwyrdd, codau QR, HWB ayyb – staff a disgyblion yn fwy hyderus</li> </ul>	<p>Holiadur 360° wedi'i gwblhau a'r agweddau i'w datblygu wedi cael eu hadnabod. Miss Jones wedi mynychu rhai cyrsiau am Lythrennedd Digidol ac wedi adrodd nôl.</p> <p>Polisi newydd wedi'i dderbyn gan y Llywodraethwyr a'r rhieni wedi cael linc i'r wefan i edrych ar y copi.</p> <p>Pencampwyr Digidol wedi'i penodi. Disgyblion wedi gorfod gwneud cais am le ar y panel. Wedi cydweithio gyda Miss Jones ar y polisi ynghyd â lawnsio tudalen Facebook newydd i'r Ysgol.</p> <p>Staff yn dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio codau QR. Sgrîn gwyrdd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer rhai tasgiau.</p> <p>Gweithdy sgrîn gwyrdd wedi cymryd lle i staff a disgyblion. Disgyblion yn gyffrous iawn wrth weithio gyda'r arbenigwr. Calendrau 2017 bl 5 a 6 yn dangos clyfrwch y sgrîn.</p> <p>Steve Smith wedi dod i weithio gyda'r disgyblion ddwywaith ar weithgareddau LEGO a Scratch. Clwb Codio yn cael ei drefnu o dan ofalaeth gwirfoddolwr ym mis Ionawr.</p> <p>Disgyblion wedi elwa o'r sesiynau.</p> <p>Tudalen Facebook ac Ap Ysgol newydd wedi cael ei lawnsio. Rhieni wedi llenwi ffurflenni caniatad am E-Ddiogelwch.</p> <p>Hyfforddiant min nos wedi cymryd lle ar apiau newydd a rhai staff o ysgolion eraill wedi ymuno gyda ni. Arfer dda wedi cael ei rannu.</p> <p>Clwb Codio wedi cael ei sefydlu ers dechrau mis Ionawr yn dilyn adborth o'r holiaduron rhieni ac yn cael ei redeg gan riant - Emma Hill. Disgyblion bl 5 a 6 yn mynychu ac yn hoffi'r Clwb yn fawr.</p> <p>30 o gluniaduron ac 1 iPad wedi cael eu harchebu ddechrau mis Chwefror sydd yn sicrhau fod digon o adnoddau TGCh ym mhob dosbarth.</p> <p>Trefnwyd hyfforddiant i athrawon ar lawr y dosbarth yn defnyddio HWB gyda'r disgyblion.</p> <p>Bu Abbie Davies, Pennaeth Ysgol yr Enw Sanctaidd i fewn yn dysgu'r staff am y rgalen OneNote ar gyfer cadw cofnodion cyfarfodydd /</p>

	<p>cyrsiau a modd o gadw gwybodaeth perthnasol. Staff yn hoff iawn o'r raglen ac yn ei ddefnyddio'n helaeth</p>
<p><b><u>Cynllun marcio ac asesu</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Penodi cydlynnydd newydd, edrych ar fodd newydd o gynllunio</li> <li>• Ail-edrych ar ein polisi asesu a marcio</li> <li>• Sicrhau fod AAGD yn arfer dda ar draws yr ysgol</li> <li>• Gwneud defnydd effeithiol o'r profion GL i asesu a thargeddu disgyblion unigol</li> </ul>	<p>Cynllun marcio wedi cael ei ail-wampio mewn cydweithrediad gyda'r cynllun Dojo.</p> <p>Staff wedi treialu cynllun Cwmpawd ar gyfer cynllunio ond ddim yn teimlo ei fod yn dangos y sgiliau sydd yn cael ei ddefnyddio. Llyfrau arbennig ar gyfer cynllunio wedi cael eu harchebu gan y staff sydd yn cael eu treialu. Angen chwilio am system sydd yn tracio sgiliau.</p> <p>Amserlen ar gyfer profion GL wedi cael ei drefnu a nifer o'r profion wedi cael eu gwneud. CAT4 ar gyfer plant bl 3-6 wedi dangos i'r staff pa lefelau sydd yn bosib i'r plant gyrraedd gyda sialens.</p> <p>Holiaduron wedi cael ei anfon allan i rieni - 26 wedi dychwelyd. Adroddiad ar y canlyniadau wedi'i roi yn y Cyfarfod Cwricwlwm a chrynodeb wedi'i anfon allan i rieni</p> <p>Llyfrau wedi cael ei monitro. Agweddau i'w gwella ac arfer dda wedi cael ei adnabod.</p> <p>FR yn rhannu'r arfer dda o argraffu meini prawf llwyddiant i'r disgyblion gyda gweddill y staff sydd wedi mabwysiadu'r arfer. Dal yn methu dod o hyd i gynllun sy'n addas ar gyfer y plant ym Meithrin a Derbyn. Angen holi ysgolion eraill.</p>
<p><b><u>Rheoli</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trefnu cydlynwyr newydd ac amserlenni CPA newydd</li> <li>• Presenoldeb – cyrraedd 95.5% a thargeddu digyblion unigol</li> <li>• Ail-wampio polisi ymddygiad a gwobrwyo i gynnwys cynllun DOJOs newydd</li> </ul>	<p>Amserlenni dysgu mewn lle ers Medi. CPA yn cymryd lle ar ddydd Llun gyda Miss Ina a Mrs James yn gwneud y gwaith</p> <p>Cynllun Dojo wedi cael ei roi mewn lle. Disgyblion y Cyngor Ysgol wedi gweithio gyda'r staff ar y gwobrwyo. Ethos Gymraeg wedi gwella ar y cyfan, angen cadw atgoffa. Tost a siocled poeth yn gweithio'n dda. Polisi ymddygiad wedi cael ei ddiwygio. Polisi ymddygiad a gwaith cartref wedi cael ei gytuno gan y Llywodraethwyr.</p> <p>Presenoldeb heb gyrraedd 95% ar ddiwedd tymor yr hydref na'r gwanwyn. Pennaeth yn cydweithio gyda'r athrawes gynnal gyda disgyblion unigol. Presenoldeb dal yn cael ei fonitro. Gweinyddwraig swyddfa yn cael sgwrs gyda'r Pennaeth yn fisol am y sefyllfa a disgyblion yn cael eu targedu. Cysylltu gyda'r Sywddog Presenoldeb os oes angen.</p> <p>Nifer o ddisgyblion yn dechrau cyrraedd yr ysgol yn hwyr unwaith eto ac angen targedu hyn yn rhydd yr haf.</p> <p>Yn dilyn cyfweiliadau mewnol, penodwyd Mrs Ffion Rodgers i dderbyn pwynt rheolaeth TLR.</p> <p>Craffu ar lyfrau wedi'i amserlenni ar gyfer cyfarfodydd staff yn rheolaidd.</p> <p>Llawlyfr yr Ysgol yn gyfredol ac wedi ei lwytho i'r wefan</p> <p>Ap wedi cael ei brynu i'r Ysgol sydd yn fodd o gysylltu gyda rhieni am weithgareddau'r Ysgol. Lanswyd dros wyliau Pasg, nifer o rieni wedi lawrlwytho'r ap i'w ffôn / tabled. Adborth positif amdano.</p>
<p><b><u>Diogelu</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau fod gwybodaeth pob disgybl yn gyfredol a sicrhau cyfeiriad ebost rhieni er mwyn llythyru yn y modd yma.</li> </ul>	<p>Gwybodaeth disgyblion yn gyfredol.</p> <p>Marc Griffiths a'i Sioe 'Gold in You' yn ymweld â'r Ysgol ddwywaith yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Disgyblion blwyddyn 6 wedi gweithio ar brosiect gyda Hafan Cymru am agweddau o ddiogelu gan addysgu disgyblion blwyddyn 2 am rhai o agweddau.</p>



<ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Sicrhau fod y disgyblion yn deall pwysigrwydd bod yn ddiogel yn y byd ac ar y We</i></li> <li>• Cymryd rhan yn arolwg diogelu y Sir</li> </ul>	<p>FR ac EH wedi mynychu hyfforddiant Haen 2 Staff yn ymwybodol o drefniadau diogelu ac yn sicrhau fod aelodau eraill o staff yn ymwyboddol o bryderon. Ymweliad Diogelu yn cymryd lle ym mis Mehefin. Ymweliad wedi bod yn llwyddiant, aros am yr adroddiad am y camau nesaf i'w cymryd.</p>
<p><b><u>Clybiau Ysgol</u></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Parhau gyda'r Clybiau ysgol presennol – Clwb Cwl, Coginio, Adran a Chwaraeon</i></li> <li>• <i>Ystyried ceisiadau'r rhieni o'r holiaduron blynyddol</i></li> <li>• <i>Sicrhau fod disgyblion PYDd yn elwa o'r clybiau ac yn dangos gwelliant</i></li> </ul>	<p>Clybiau yn rhedeg trwy'r tymor. Clwb Dawns yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod, Clwb Cwl ar gyfer Ffair nadolig -Llanychllwydog, plant blwyddyn 4-6 yn cael Clwb Coginio, nifer fawr o ymwelwyr wedi cael ei gwahodd i Adran ar nos Iau - rhifau wedi bod lan yn tua 30 ar ambell noson. Clwb Codio yn cymryd lle ar ôl ysgol ar nos Lun Clwb Ffilmio heb ei ddechrau eto gyda'r Pencampwyr Digidol. Angen mwy o hyfforddiant arnynt. Clwb Gwyddbwyll wedi'i sefydlu ac yn enwog nawr dros Gymru gyfan gan fod disgyblion a'r Pennaeth wedi bod yn siarad am y Clwb ar Radio Cymru.</p>

### **ASESU A GOSOD TARGEDAU**

Mae asesu yn rhan annatod o waith ysgol. Rydym wedi gosod targedau ar gyfer perfformiad disgyblion am y ddwy flynedd nesaf. Gweler y daflen ganlyniadau.

Mae gennym system dracio yn yr ysgol sy'n ein galluogi i gofnodi a thracio datblygiad a chynnydd disgyblion. Caiff canlyniadau asesuadau eu cofnodi yn y llyfrynnau unwaith fod asesuadau wedi eu gwneud. Caiff y sgôrau eu huwch-liwio, yn unol â chôd benodol, fydd yn tynnu sylw i anghenion penodol unrhyw ddisgybl.

Defnyddiwn y rhaglen 'Incerts' i asesu ac i dracio lefel cyrhaeddiad y disgyblion. Mae'n ddarpariaeth cadarnhaol i'r ysgol ac yn arf gwych i gynorthwyo'r athrawon wrth asesu gwaith y disgyblion.

### **POLISIAU'R YSGOL**

Mae holl bolisiau'r Ysgol wedi eu diwygio ac ar gael yn yr ysgol i unrhywun sy'n dymuno eu darllen.

### **ANGHENION ADDYSG YCHWANEGOL**

Mrs Enfys Howells (SENCO) sydd yn gyfrifol am Anghenion Addysgol Ychwanegol y disgyblion. Dilynir canllawiau'r Côt Ymarfer wrth adnabod a darparu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Addysg Ychwanegol. Rhoddir llawer o bwyslais ar gofnodi cynnydd y disgyblion ac ar ymgynghoriad rhwng athrawon a rhieni, athrawon a'i gilydd ac athrawon a disgyblion. Cytunir ar dargedau i bob disgybl. Bydd pob athro dosbarth, mewn ymgynghoriad â'r cydgysylltydd ADY a'r rhieni yn cynllunio Cynllun Addysg Unigol (CAU) ar gyfer pob unigolyn, fydd yn clustnodi ffyrdd i ymateb i anghenion yr unigolyn. Bydd pob plentyn yn cael ei addysg yn y brif ffrwd, ond fe gaiff rhai eu heithrio am gyfnodau byr o hyfforddiant unigol neu o fewn grwp bach. Pan fo plentyn angen cymorth ychwanegol byddwn yn gofyn caniatad y rhieni i osod enw'r plentyn ar gofrestr 'Gweithredu Ysgol'. Os bydd angen ymyrraeth gan asiantau o du allan i'r ysgol, bydd y plentyn yn

cael ei osod ar gofrestr Gweithredu Ysgol a Mwy. Caiff y cofrestr hyn ei fonitro'n barhaus.

### **CYFRWNG CYMRAEG AC YSGOL DWYIEITHOG**

Categoriiddir Ysgol Bro Inqli fel ysgol gyfrwng Cymraeg lle mae pob agwedd o'r cwricwlwm yn cael ei ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac o leiaf 70% trwy gyfrwng y Gymraeg yn CA2. Dysgir Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy'r Gymraeg fwyaf yn CA2 ond cyflwynir rhai rhannau mewn Saesneg.

### **DIOGELU PLANT**

Mae gan yr ysgol bolisi Amddiffyn Plant a Mrs Enfys Howells, Mrs Ffion Rodgers a Miss Eleri Jones yw'r personau penodedig. Mrs Glenda Thomas sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ar ran y Llywodraethwyr. Amddiffyn plant rhag niwed yw cyfrifoldeb yr holl staff ysgol. Byddwn yn dilyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan sydd wedi cael ei fabwysiadu gan Fwrdd Lleol Diogelu Plant.

### **CYNLLUN ANABLEDD**

Mae Cynllun Cydraddoldeb Pobl ag Anabledd wedi ei chreu gan dynnu sylw dyletswydd yr Ysgol wrth fynd i'r afael ag hawliau pobl ag anghenion. Mae'r polisi hwn ar gael ar gais.

Gwneir pob ymdrech i dderbyn plant ag amryw anghenion arbennig. Croesawn bob plentyn, a thrwy hyn gobeithiwn y bydd y plant sydd eisoes yn yr ysgol yn tyfu i fod yn fwy goddefgar a gofalus o'i gilydd. Ystyrir fod mynediad i'r adeilad ac o fewn yr adeilad yn ddigonol i blant ag anabledd corfforol. Pe bai problem yn codi fe wnawn ein gorau i'w oresgyn.

### **TROSGLWYDDO I'R YSGOL UWCHRADD**

Mae dyddiau trosglwyddo wedi eu trefnu gan Ysgol Preseli ac Ysgol Bro Gwaun. Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi ymweld a'r ysgol o'u dewis i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau. Mae disgyblion fydd yn trosglwyddo i Ysgol y Preseli wedi cael gwario wythnos yno i ymgyfarwyddo a'r ysgol a'i gweithgareddau a disgyblion Bro Gwaun wedi bod yn rhan o'u prosiect Bwrlwm. Gwahoddir rhieni i nosweithiau agored yn ogystal, i gyfarfod athrawon ac i gael gwybodaeth am unrhyw ofid sydd ganddynt. Caiff disgyblion blwyddyn 5 gyfle i fynychu y ddwy Ysgol Uwchradd am ddiwrnod, fel rhagflas o'r hyn sydd yn digwydd yno.

### **CYNGOR YR YSGOL**

Mae'r cyngor yn cwrdd bob yn ail wythnos. Mae llais y plant yn bwysig i ni yma ym Mro Inqli. Mae 2 gynrychiolydd o bob blwyddyn ar y Cyngor ac maent wedi gwneud llawer o benderfyniadau yn ystod y flwyddyn, e.e. creu pamffled Diogelu, posterï o amgylch yr Ysgol yn y toiledau, cadw'r bagiau yn daclus ac yfed dŵr. Trefnwyd prynu offer ar gyfer amser chwarae ac maent wedi dechrau trafod sicrhau bocsys bwyd mwy iach. Cydlynwyd nifer o weithgareddau codi arian yn ystod y flwyddyn - Plant Mewn Angen, Arch Noa (Cwrdd Diolchgarwch), siwmperi Nadolig i Diabetes a Comic Relief. Maent yn ganolog i drefniadau ar gyfer cynlluniau'r Cyngor Dre ar gyfer Parc y Plant a'r ardal ganolg yn yr Ysgol. Ail-gydiwyd yn y system Ffwrwm Ffrindiau dros y

flwyddyn ac maent hefyd wedi trefnu gyda'r adran Arlwyio i gael bagets i ginio unwaith yr wythnos. Blwyddyn brysur iawn i'r Cyngor!

Dyma pwy oedd ar Gyngor yr Ysgol eleni:

Annabelle Sykes - cynrychiolydd blwyddyn 6 (Cadeirydd)

Jake Noott - cynrychiolydd blwyddyn 6 (Ysgrifenyddes)

Esme Richards - cynrychiolydd blwyddyn 5 (Trysorydd)

David Pugh - cynrychiolydd blwyddyn 5 (Trysorydd)

Ella Rose Davies- cynrychiolydd blwyddyn 4

Jake Lewis- cynrychiolydd blwyddyn 4

Eleanor McCrory - cynrychiolydd blwyddyn 3

Ewan Griffiths - cynrychiolydd blwyddyn 3

Katie Hilsdon - cynrychiolydd blwyddyn 2

Cade Watts - cynrychiolydd blwyddyn 2

Daisy Cooper - cynrychiolydd blwyddyn 1

Irfan Junaidean - cynrychiolydd blwyddyn 1

### **YSGOL HYBU IECHYD**

Mae Ysgol Bro Inqli yn rhan o'r Prosiect Hybu Iechyd ac annogir y plant, nid yn unig i gadw'n iach ond i sicrhau eu bod yn chwarae rhan allweddol wrth greu cymuned glôs ac hapus ym Mro Inqli. Annogwn y plant i yfed ddigon o ddŵr ac i fwyta ffrwyth yn ystod y dydd. Mae'r stundin ffrwythau dal yn rhedeg pob amser chwarae boreol gan ddisgyblion blwyddyn 3 a 4. Diolch i Miss Alison am fod yn gyfrifol yn wythnosol a sicrhau fod dewis eang o ffrwyth ar gael i'r disgyblion yn ddyddiol. Telir 20c am unrhyw ddarn o ffrwyth.

Ar ddiwedd tymor yr haf 2015, cyflwynwyd Miss Jones gyda phumed deilen y Prosiect Hybu Iechyd yn ein gwasanaeth ddiwedd tymor. Rydym yn casglu tystiolaeth ar hyn o bryd i fynd am y Gwobr Ansawdd.

### **YSGOL GYNALIADWY**

Rydym wedi ymuno gyda'r cynllun Ysgol Gynaliadwy gan sefydlu Cyngor Eco / Iach. Bydd y gwaith Hybu Iechyd a'r gwaith Cynaliadwy yn redeg law yn llaw. Mr Davies sydd â gofal y Cyngor yma. Canolbwyntir eleni ar Egni a Dŵr. Gobeithio derbyn ein Gwobr Arian yn dilyn asesiad ddechrua mis Gorffennaf gan yr Asesydd Allanol. Dyma aelodau'r Cyngor Eco / Iach:

Noa Akinyemi-Sears- cynrychiolydd blwyddyn 6 (Cadeirydd)

Lilly Burgess - cynrychiolydd blwyddyn 6 (Ysgrifenydd)

Iwan Phillips - cynrychiolydd blwyddyn 5 (Is-Gadeirydd)

Jaycee Jones - cynrychiolydd blwyddyn 5 (Is-Ysgrifennydd)

Siôn Perkins- cynrychiolydd blwyddyn 4

Mari Haf Davies - cynrychiolydd blwyddyn 4

John Knott - cynrychiolydd blwyddyn 3

Lucy Humfrey - cynrychiolydd blwyddyn 3

Dion Jones - cynrychiolydd blwyddyn 2

Angharad Thomas - cynrychiolydd blwyddyn 2

Thomas Lewis - cynrychiolydd blwyddyn 1

Elinor Tilley - cynrychiolydd blwyddyn 1

Mae'r Cyngor wedi cydlynu Prosiect 'Operation Energy', creu posteri arbed egni a gwneud iMovies ar arbed egni a dŵr. Buont yn brysur yn trefnu biniau papur ar gyfer yr Ysgol ac hefyd gwahoddwyd swyddog o'r elusen Water Aid i'r Ysgol i wneud gwasanaeth. Maent yn bwriadu cynnal gweithgaredd codi arian ar gyfer yr elusen yma cyn hir. Bu aelodau bl 4, 5 a 6 yn rhan o ddiwrnod Cyngorau Eco y Sir i ddysgu am nifer o bethau gwahanol yn ymwneud ag Eco a bod yn Gynhaliadwy. Maent hefyd wedi trefnu cymryd rhan mewn cystadleuaeth pysgod jeli. Edrychwn ymlaen i glywed y canlyniadau.

## **CYNGHORAU ERAILL**

### **Cyngor Cymreictod**

Eleni pendefynwyd creu Cyngor Cymreictod yn yr Ysgol a'i gwaith oedd i hybu Cymreictod o fewn yr Ysgol. Mrs Matthews sydd yn gyfrifol am y Cyngor yma. Maent wedi trefnu nifer fawr o bethau yn ystod y flwyddyn gan ddechrau gyda rhoi 5 pwynt Dojo am siarad Cymraeg gyda ffrindiau. Hefyd, trefnwyd fod Cymro neu Chymraes bob dosbarth yn ennill gwobr yn wythnosol. Trefnwyd bore coffi i rieni a ffrindiau ar ddiwrnod Shw Mae ac hefyd Disgo Santes Dwynwen er mwyn codi arian ar gyfer gwahodd Tudur ac Anni o Stwnsh S4C i ddod atom am y dydd i hybu Cymreictod. Gwahoddwyd Merched y Wawr Trefdraeth a Dinas i ddod atom i rannu cinio a sgwrs ac roedd effaith hyn yn glir i'w weld gan fod y disgyblion yn sgwrsio'n naturiol yn ystod y ginio ac wedyn. Bwriadant wahodd Clwb Cinio Trefdraeth i ddod eto ym mis Medi. Ar ddydd Gwener, Mehefin 30ain byddant yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth yn erbyn Cyngorau Cymreictod eraill y Sir i geisio ennill lle yn seremoni Gwobrau Shw Mae Sir Benfro ym mis Hydref. Dymunwn pob dymuniad da iddynt.

Dora Ashe - cynrychiolydd blwyddyn 6 (Cadeirydd)

Jac Jones - cynrychiolydd blwyddyn 6 (Is-Gadeirydd)

Seren Burgess - cynrychiolydd blwyddyn 5 (Is-Ysgrifennydd)

Siôr Phillips - cynrychiolydd blwyddyn 5 (Ysgrifennydd)

Ollie Griffiths- cynrychiolydd blwyddyn 4

Abbie Griffiths - cynrychiolydd blwyddyn 4

Oscar Ellis - cynrychiolydd blwyddyn 3

Millie Mai Evans - cynrychiolydd blwyddyn 3

Griff Evans - cynrychiolydd blwyddyn 2

Cerys Owen - cynrychiolydd blwyddyn 2

Malakai Rees - cynrychiolydd blwyddyn 1

Mali Phillips - cynrychiolydd blwyddyn 1

## **Cyngor Digidol / Pencampwyr Digidol**

Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth eu bod yn bwriadu cyflwyno elfen bwysig eraill i Gwricwlwm ysgolion, sef Llythrennedd Digidol, penderfynwyd benodi Cyngor Digidol neu Bencampwyr Digidol i helpu ymgymryd â'r gwaith. Miss Jones sydd yn gyfrifol am y Cyngor yma. Maent wedi bod yn gyfrifol am weithgareddau digidol drwy'r flwyddyn. Trefnwyd cystadleuaeth creu poster yn hybu diogelwch ar y we ac roedd yr enillwyr yn cael profiad VIP yn yr ystafell athrawon, posteri ar gyfer y Clwb Codio ac hefyd amserlenni ar gyfer rota i'r cwpwrdd gluniaduron.

Kaitlyn Marks - cynrychiolydd blwyddyn 6 (Cadeirydd)

Louis Larence-Jones - cynrychiolydd blwyddyn 6 (Is-Gadeirydd)

Laurie Walker - cynrychiolydd blwyddyn 5 (Is-Ysgrifennydd)

Theo Griffiths - cynrychiolydd blwyddyn 5 (Ysgrifenydd)

Benjamin Smith - cynrychiolydd blwyddyn 4

Izzy Bartram - cynrychiolydd blwyddyn 4

Toby Roberts - cynrychiolydd blwyddyn 3

Françoise Lawrence-Jones - cynrychiolydd blwyddyn 3

## **LLAWLYFR YR YSGOL**

Mae'r llawlyfr ar gael yn yr ysgol i unrhyw un sydd heb gael copi. Gellid gweld copi ohono ar wefan yr ysgol [www.ysgolbroingli.com](http://www.ysgolbroingli.com)

## **YR ADEILAD**

Mae cyflwr yr adeilad yn dderbynniol.

Mae offer trydan yr ysgol yn cael eu gwirio yn rheolaidd gan arbenigwyr trydan.

Rhaid estyn ein diolchiadau i Mr Pete Hilsdon, y gofalwr sydd yn parhau i sicrhau fod yr adeilad yn edrych ar ei orau.





Dros wyliau'r Pasg 2017, bu cwmni i fewn yn rhoi to newydd ar gefn yr ysgol. Mae'r Adran Adeiladwaith yn edrych i newid gweddill y slatiau ar y to dros y blynyddoedd nesaf.

Bu adeiladwyr i fewn dros y Pasg yn adnewyddu'r grisiau yn ardal allanol y Cyfnod Sylfaen i'w gwneud yn fwy diogel.

Mae prosiect mawr gennym ar gyfer ardal ganol yr ysgol fydd yn golygu tipyn o waith codi arian. Dyma fydd Ffrindiau Bro Ingli yn anelu tuag ato y flwyddyn nesaf.

## **CLYBIAU'R YSGOL**

Diolch i bawb sydd wedi helpu mewn unrhyw fodd tuag at weithgareddau amrywiol y clybiau. Ni allwn gynnal y clybiau hyn heb gymorth y staff, rhieni a ffrindiau.

 <p><b>Clwb Codio</b></p> <p>Dydd Llun 3.15 - 4.30yp</p>	 <p><b>Clwb Coginio</b> Dydd Mercher Hydref – bl 6 Gwanwyn – bl 5 Haf – bl 4 3.15-4.30yp</p>	 <p><b>Adran Carn Ifan</b> Dydd Iau 3.15-4.30yp</p>
<p><b>Clwb Dawnsio</b></p> <p>Dydd Llun 3.15 - 4.30yp</p> 	<p><b>Clwb Gwyddbwyll</b></p> <p>Dydd Llun 12.15-1.00yp</p> 	<p><b>Clwb Cwl</b></p> <p>Amser cinio 12.15-1.00yp</p>

### AMCANION A LLWYDDIANNAU CHWARAEON

Mae'n fwriad gennym i sicrhau fod pob plentyn yn cael ac yn mwynhau chwaraeon, beth bynnag fo'u gallu. Trwy chwaraeon y dysgant hunan ddisgyblaeth, goddefgarwch a chyd-weithrediad. Ymdrechwn i sicrhau na fyddant yn teimlo'n annigonol, ac fe ganmolir eu hymdrech i wella'u perfformiad. Gobeithiwn y byddant yn sylweddoli pwysigrwydd chwaraeon ac ymarfer corff i'w hiechyd a'u datblygiad cyffredinol.

Eleni, rydym wedi cymryd rhan mewn amryw o gystadlaethau amrywiol; twrnament criced, pêl droed, pêl rwyd a thraws gwlad ac am y tro cyntaf rydym wedi cymryd rhan mewn cystadlaethau a gweithgareddau rygbi. Rydym wedi cael llwyddiant aruthrol mewn rhai meysydd. Llwyddodd y tîm pêl droed a thîm pêl rwyd Adrannau gyrraedd y Rownd Genedlaethol yn Aberystwyth ddechrau mis Mai gan ddod yn drydydd dros Gymru yn y ddwy gystadleuaeth. Llwyddodd thîm pêl rwyd yr Ysgol i fynd drwyddo i'r rownd Sirol yn yr Urdd.

Mae disgyblion yr ysgol yn derbyn gwrs Ymarfer Corff yn wythnosol gan Miss Jones (CS) a Mr Davies (CA2). Mae disgyblion CA2 yn derbyn gwrsi nofio yn ystod Tymor yr Hydref a Thymor y Gwanwyn / Haf yng Nghanolfan Hamdden Abergwaun.

### CYTUNDEB GWASANAETH

Cytunwyd ar y cytundebau canlynol gyda'r Awdurdod Addysg:-

Atgyweirio a Chynnal a Chadw Adeiladau

Hyfforddiant Anghenion Arbennig Ychwanegol

Gwasanaeth Rheolaeth Ysgol Lleol

Gwasanaeth Cerddoriaeth

Gwasanaeth Llywodraethwyr

Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Personnel

Gwasanaeth Cyfreithiol

### MYND Â PHLANT AR WYLIAU:

Disgwylir i rieni, trwy gyfraith, sicrhau fod eu plant yn mynychu ysgol. Mae cymryd eich plentyn allan o'r ysgol er mwyn mynd ar wyliau bellach yn erbyn dymuniadau'r Ysgol ac annogwn chi i beidio gwneud oni bai fod amgylchiadau cadarnhaol dros wneud hynny. Disgwylir i chi anfon llythyr i'r Pennaeth i ofyn am ganiatad. Os ydych yn tynnu eich plentyn allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau, mi all hyn olygu eich bod yn derbyn dirwy os nad yw presenoldeb eich plentyn yn ddigon da.

### PRESENOLDEB

Erfynniwn arnoch i sicrhau presenoldeb cyson eich plant yn yr ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi wneud apwyntiadau meddygol / deintyddol, nad sy'n argyfyngus, tu allan i oriau ysgol. Caiff presenoldeb disgyblion ei farcio ar-lein. Mae côdau penodol am absenoldebau, felly, a wnewch chi'n siwr ein bod yn cael gwybod y rheswm am absenoldeb eich plentyn yn fuan.

*Mae'r Corff Llywodraethol wedi gosod target o 95.5% am bresenoldeb.*

Mae'n holl bwysig bod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon hefyd. Disgwylir i bob plentyn gyrraedd yr ysgol erbyn 9 o'r gloch.

Rydym yn rhoi tystysgrif i bob plentyn sydd wedi cael presenoldeb o 98% neu fwy ar ddiwedd bob tymor. Mae'r plant sydd yn llwyddo i gael 100% yn derbyn gwobr hefyd. Hysbysir pob rhiant o bresenoldeb ei plentyn ar ddiwedd pob tymor.

Mae **POB** diwrnod ysgol yn cyfrif tuag at ddyfodol eich plentyn.

Mae pob diwrnod coll yn cyfrannu tuag at golli addysg.

Mae 365 diwrnod, 52 wythnos, a 12 mis mewn blwyddyn.

Mae 195 diwrnod, 39 wythnos, a 6 tymor mewn blwyddyn ysgol.

Mae 5 diwrnod mewn blwyddyn yn ddiwrnodau hyfforddiant athrawon (HMS)

Felly, mae plant yn mynychu'r ysgol am 190 diwrnod. Mae 175 o ddiwrnodau yn ddiwrnodau heb ysgol.

Mae pob diwrnod ysgol wedi'u rannu mewn 2 sesiwn. Felly, dylai disgybl fynychu'r ysgol am 380 sesiwn.

- 10 diwrnod o absenoldeb (20 sesiwn) = 5% absenoldeb
- 19 diwrnod o absenoldeb (38 sesiwn) = 10% absenoldeb (4wythnos gyfan)
- 29 diwrnod o absenoldeb (58 sesiwn) = 15% absenoldeb
- 38 diwrnod o absenoldeb (76 sesiwn) = 20% absenoldeb
- 47 diwrnod o absenoldeb (94 sesiwn) = 25% absenoldeb
  
- Gall golli 17 diwrnod o ysgol mewn blwyddyn feddwl efallai byddwch yn cael un gradd cyfan yn is yn eich harholiadau nad ydych yn haeddu.
- Mae disgyblion sydd ag absenoldeb o 15% (presenoldeb 85%) yn annhebygol i ddebryn 5 gradd A-C mewn TGAU neu unrhyw gymhwyster mewn ysgol uwchradd.

Prydlondeb

Mae bod yn amhrydlon yn aml i'r ysgol yn adio i fyny i addysg goll:

- 5 munud yn hwyr bob dydd = 3 diwrnod coll (6 sesiwn) y flwyddyn
- 15 munud yn hwyr bob dydd = 2 wythnos coll (10 sesiwn) y flwyddyn
- 30 munud yn hwyr bob dydd = 19 diwrnod coll (38 sesiwn s) y flwyddyn

**Colli 19 diwrnod (absenoldeb 10%) dros flwyddyn bob blwyddyn am 10 mlynedd o fywyd ysgol = 1 blwyddyn ysgol gyfan (380 sesiwn)**

## YR YSGOL, Y RHIENI A'R GYMUNED

Mae'r ysgol yn hynod o ffodus fod ganddi gysylltiadau agos a'r gymuned ac rydyn yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth y gymuned i'r ysgol. Yn ystod y flwyddyn mae'r plant wedi ymweld ag amryw le fel rhan o'u gwaith ysgol ac rydym wedi bod yn ffodus i gael amryw o ymwelwyr i'r ysgol sydd wedi cyfoethogi dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas na fuasem ni ar ein pennau ein hunain wedi llwyddo rhoi iddynt.

Maent hefyd wedi cymryd rhan mewn nifer o gystadlaethau ac arddangosfeydd - chwaraeon, celf a chreffft, coginio ac ar lwyfan. Estynwn ein llongyfarchiadau iddynt i gyd am eu hymdrechion a'u llwyddiant.

Dyma enghreifftiau o weithgareddau a llwyddiannau'r Ysgol.

Tymor	Gweithgaredd
Tymor yr Hydref	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Am hanes gweithgareddau'r tymor ewch i gopi Tymor yr Hydref 2016 o Frawl Bro Inqli. Os hoffech gopi, ewch i'r safle we.</li> </ul>
Tymor y Gwanwyn	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Am hanes gweithgareddau'r tymor ewch i gopi Tymor y Gwanwyn 2017 o Frawl Bro Inqli. Os hoffech gopi, ewch i'r safle we.</li> </ul>
Tymor yr Haf	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar ôl ennill rownd Sirol o'r pêl droed Adrannau mi wnaeth timoedd pêl droed a phêl rwyd Adran Carn Ifan fynd ymlaen i'r Genedlaethol yn Aberystwyth lle ddaethom yn drydydd dros Gymru.</li> <li>• Daeth 1 gwobr Genedlaethol yn ôl i'r ysgol o'r Celf a Chreff yr Urdd ym Mhenybont ar Ogwr. Llwyddodd Alex English i gael y wobwr 1af am ei lun monocrom.</li> <li>• Bu Jaycee Jones yn cystadlu yn y gystadleuaeth dawnsio disgo / stry/ hip hop yn yr Eisteddfod Genedlaethol hefyd ond dim lwc eleni.</li> <li>• Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 i wersyll yr Urdd Caerdydd am dri diwrnod yn profi pob math o weithgareddau. Diolch i Mr Davies a Miss Sally / Miss Susie am ofalu amdanynt.</li> <li>• Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn joio yn y Jambori Urdd gyda Gwenda Owen yn neuadd Cilgerran.</li> <li>• Cymerodd bl 5 rhan yn nhwrnament Kwik Criced yn Abergwaun i ddisgyblion CA2.</li> <li>• Cynhaliwyd Mabolgampau'r Urdd ar gaeau Ger y Llan, Treletert eleni eto i aelodau'r Urdd. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus</li> <li>• Bu disgyblion blwyddyn 4 hefyd â stondin yn y Ffair Fenter yn gwerthu cacennau. Pwrpas y diwrnod fydd i ddatblygu sgiliau busnes y plant.</li> <li>• Cynhaliwyd ein Mabolgampau ar ddydd Llun, Mehefin 26ain a Morfa enillodd. Bydd Frawl Bro Inqli yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y tymor gyda mwy o newyddion am weithgareddau.</li> </ul>

Hoffem ddiolch yn fawr i'r rhieni a fu'n trefnu codi arian yn ystod y flwyddyn. Mae eich cyfraniad yn werthfawr iawn ac yn ein helpu ni i gyfoethogi'r cwricwlwm a phofsiadau'r plant, drwy dalu am adnoddau a thrafnidiaeth i ymweliadau i nifer o fannau. Hoffem gymryd y cyfle yma i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad i'r ysgol.